

Dydd Mercher, 23 Chwefror 2022

Hysbysiad o gyfarfod:**Cyngor Sir****Dydd Iau, 3ydd Mawrth, 2022 at 2.00 pm,
Neuadd y Sir, Brynbuga – Cyfarfod o Bell****AGENDA**

Cynhelir gweddïau cyn y cyfarfod Cyngor am 13.50pm. Mae croeso i bob aelod ymuno â'r Cadeirydd ar gyfer hynny os ydynt yn dymuno gwneud hynny

Eitem No	Eitem	Tudalennau
1.	Ymddiheuriadau am absenoldeb	
2.	Datganiadau o Fuddiant	
3.	Cwestiynau Cyhoeddus	
4.	Cyhoeddiad y Cadeirydd ac unrhyw ddeisebau sydd wedi eu derbyn	
5.	Adroddiadau i'r Cyngor	
5.1.	CYLLIDEBAU CYFALAF A REFENIW 2022/23 A CHYNNIG Y DRETH GYNGOR	1 - 14
5.2.	STRATEGAETH GYFALAF 2022/23 A'R STRATEGAETH RHEOLI TRYSORLYS 2022/23	15 - 72
5.3.	ASESIAD O ANGHENION Y BOBLOGAETH	73 - 146
5.4.	CYLLID BAND B YSGOLION YR 21AIN GANRIF: DATGANIAD GAN YR AELOD CABINET AR GYFER PLANT A PHOBL IFANC	
5.5.	SACRE: CYNHADLEDD CYLCH GORCHWYL A'R MAES LLAFUR A	147 - 152

GYTUNWYD

5.6.	ADDASU TREFNIADAU CRAFFU	153 - 172
5.7.	STRATEGAETH IAITH GYMRAEG 5 MLYNEDD 2022- 27	173 - 190
5.8.	AELODAETH Y PWYLLGOR SAFONAU	191 - 192
6.	CYNIGION I'R CYNGOR	
6.1.	Wedi ei gyflwyno gan y Cynghorydd Sir R. John	
	<p>Mae'r Cyngor hwn yn: Condemnio cynlluniau Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwllans Cymru i dynnu'r cerbydau ymateb cyflym o orsafoedd ambiwlans Trefynwy a Chas-gwent fel rhan o'r Adolygiad o'r Amserlen/Darpariaeth Genedlaethol.</p> <p>Yn credu fod israddio'r gorsafoedd yma yn mynd i roi bywydau trigolion yn Nhrefynwy, Cas-gwent a Chil-y-coed mewn mwy o beryg, a hynny ar adeg y mae'r targedau ar gyfer ymateb i alwadau categori A sy'n ymwneud gydag achosion o beryg bywyd eisoes yn cael eu colli, er gwaethaf ymdrechion gorau'r parafeddygon a'r gweithwyr GIG rhengflaen.</p> <p>Yn gwrthwynebu unrhyw gamau i israddio gorsafoedd ambiwlans yn Sir Fynwy ac yn galw ar Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwllans Cymru a Llywodraeth Cymru i ddileu'r cynlluniau yma.</p>	
6.2.	Wedi ei gyflwyno gan y Cynghorydd Sir J. Pratt	
	<p>Mae'r Cyngor hwn yn sir arfordirol falch ac yn fan dechrau Llwybr Arfordir Cymru. Rydym yn falch o gydnabod pwysigrwydd yr ecosystem forol a'n rôl fel rhanddeiliad a gwarcheidwad yr ecosystem. Dylid cyflwyno adroddiad i'r Cyngor o fewn 6 mis ar y cynnig hwn sydd yn cynnwys argymhellion priodol er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i chwarae ein rhan yn sicrhau môr sydd yn lân, iachus a'n gynhyrchiol ar y cyd gyda'n hymrwymiad presennol i fynd i'r afael gyda'r argyfwng hinsawdd.</p>	
7.	Cwestiynau gan Aelodau	
8.	Adroddiadau i'r Cyngor	
8.1.	CYHOEDDI'R DATGANIAD POLISI CYFLOG	193 - 208
9.	Cofnodion o'r cyfarfod blaenorol	209 - 216
10.	Cyfarfod Nesaf: 17eg Mai 2022 (CCB)	

Paul Matthews
Prif Weithredwr

CYNGOR SIR FYNWY

MAE CYFANSODDIAD Y PWYLLGOR FEL SY'N DILYN:

Cynghorwyr Sir:

D. Batrouni
J.Becker
D. Blakebrough
L.Brown
A.Davies
L.Dymock
A. Easson
C.Edwards
R. Edwards
D. Evans
M.Feakins
P.A. Fox
R.J.W. Greenland
M.Groucutt
L. Guppy
R. Harris
J. Higginson
G. Howard
S. Howarth
R.John
D. Jones
L.Jones
P. Jones
S. Jones
S.B. Jones
P. Jordan
M.Lane
P. Murphy
P.Pavia
M. Powell
J.Pratt
R.Roden
V. Smith
B. Strong
F. Taylor
T.Thomas
J.Treharne
J.Watkins
A. Watts
A. Webb
K. Williams
S. Woodhouse

Gwybodaeth Gyhoeddus

Mynediad i gopïau papur o agendâu ac adroddiadau

Gellir darparu copi o'r agenda hwn ac adroddiadau perthnasol i aelodau'r cyhoedd sy'n mynychu cyfarfod drwy ofyn am gopi gan Gwasanaethau Democrataidd ar 01633 644219. Dylid nodi fod yn rhaid i ni dderbyn 24 awr o hysbysiad cyn y cyfarfod er mwyn darparu copi caled o'r agenda hwn i chi.

Edrych ar y cyfarfod ar-lein

Gellir gweld y cyfarfod ar-lein yn fyw neu'n dilyn y cyfarfod drwy fynd i www.monmouthshire.gov.uk neu drwy ymweld â'n tudalen Youtube drwy chwilio am MonmouthshireCC. Drwy fynd i mewn i'r ystafell gyfarfod, fel aelod o'r cyhoedd neu i gymryd rhan yn y cyfarfod, rydych yn caniatáu i gael eich ffilmio ac i ddefnydd posibl y delweddau a'r recordiadau sain hynny gan y Cyngor.

Y Gymraeg

Mae'r Cyngor yn croesawu cyfraniadau gan aelodau'r cyhoedd trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Gofynnwn yn barchus i chi roi rhybudd digonol i ni er mwyn darparu ar gyfer eich anghenion.

Nodau a Gwerthoedd Cyngor Sir Fynwy

Ein diben

Adeiladu Cymunedau Cynaliadwy a Chydnerth

Amcanion y gweithiwn tuag atynt

- Rhoi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i bobl
- Sir lewyrchus a chysylltiedig
- Cynyddu i'r eithaf botensial yr amgylchedd naturiol ac adeiledig
- Llesiant gydol oes
- Cyngor gyda ffocws ar y dyfodol

Ein Gwerthoedd

Bod yn agored. Rydym yn agored ac yn onest. Mae pobl yn cael cyfle i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, dweud beth sy'n bwysig iddynt a gwneud pethau drostynt eu hunain/eu cymunedau. Os na allwn wneud rhywbeth i helpu, byddwn yn dweud hynny; os bydd yn cymryd peth amser i gael yr ateb, byddwn yn esbonio pam; os na allwn ateb yn syth, byddwn yn ceisio eich cysylltu gyda'r bobl a all helpu - mae adeiladu ymddiriedaeth ac ymgysylltu yn sylfaen allweddol.

Tegwch. Darparwn gyfleoedd teg, i helpu pobl a chymunedau i ffynnu. Os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn deg, byddwn yn gwranddo ac yn esbonio pam. Byddwn bob amser yn ceisio trin pawb yn deg ac yn gyson. Ni allwn wneud pawb yn hapus bob amser, ond byddwn yn ymrwymo i wrando ac esbonio pam y gwnaethom weithredu fel y gwnaethom.

Hyblygrwydd. Byddwn yn parhau i newid a bod yn hyblyg i alluogi cyflwyno'r gwasanaethau mwyaf effeithlon ac effeithiol. Mae hyn yn golygu ymrwymiad gwirioneddol i weithio gyda phawb i groesawu ffyrdd newydd o weithio.

Gwaith Tîm. Byddwn yn gweithio gyda chi a'n partneriaid i gefnogi ac ysbrydoli pawb i gymryd rhan fel y gallwn gyflawni pethau gwych gyda'n gilydd. Nid ydym yn gweld ein hunain fel 'trefnwyr' neu ddatrysyr problemau, ond gwnawn y gorau o syniadau, asedau ac adnoddau sydd ar gael i wneud yn siŵr ein bod yn gwneud y pethau sy'n cael yr effaith mwyaf cadarnhaol ar ein pobl a lleoedd.

Caredigrwydd – Byddwn yn dangos caredigrwydd i bawb yr ydym yn gweithio gyda nhw, gan roi pwysigrwydd perthnasoedd a'r cysylltiadau sydd gennym â'n gilydd wrth wraidd pob rhyngweithio.